**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago |
| **Swyddog perthnasol:** | Gareth Jones. Pennaeth Adran Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16/12/2025 |

## 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

- Fod Cabinet yn cefnogi sefydlu, a chyfranogiad y Cyngor i'r, Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer yr Afon Gwyrfai yn unol a'r cylch gorchwyl yn Atodiad 2.
- Fod y Cabinet yn enwebu'r Pennaeth Adran Amgylchedd i gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd newydd ac yn dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth gadarnhau cynrychiolaeth swyddogion y Cyngor ar y Bwrdd ac i ymgymryd ac unrhyw newidiadau ansylweddol i'r Cylch Gorchwyl.

## 2 Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

2.1 Mae ffurfio Bwrdd Rheoli Maetholion (BRM) yn hanfodol er mwyn cydlynu camau gweithredu strategol i leihau llygredd maetholion mewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Bydd y BRM yn darparu fforwm cydweithredol aml-asiantaeth i baratoi Cynllun Rheoli Maetholion. Mi fydd hefyd yn galluogi y partneriaid ar y bwrdd i adnabod a gweithredu mesurau tymor byr, canolig a hir i adfer a chynnal statws cadwraeth ffafriol yr ACA sef yr Afon Gwyrfai yn yr achos yma.

2.2 Mae cylch gorchwyl y bwrdd wedi'u gynnwys yn Atodiad 2. Mae yn seiliedig ar y dull a ddefnyddir gan Fyrddau Rheoli Maetholion eraill yng Nghymru. Mater i'r bwrdd arfaethedig fydd cytuno ar eu ffurf derfynol.

## 3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 Cefndir

3.1.1 Mae naw afon yng Nghymru wedi cael eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan rheoliadau cynefinoedd, gyda dwy o'r afonydd yma yng ardal Cyngor Gwynedd, sef yr Afon Gwyrfai a'r Afon Eden. Mae'r afonydd yma yn ecosystemau pwysig sy'n cefnogi bywyd gwyllt prin a phwysig.

3.1.2 Mae lefelau uchel o ffosffadau mewn afonydd yn gallu cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth a safonau dŵr. Mewn ardaloedd sensitif fel ACA, mae lefelau uchel o ffosffadau yn gallu cael effaith sylweddol ar ecosystemau sydd yn cefnogi bywyd gwyllt pwysig megis, yr eog, misglen berlog yr adon, cimwch yr afon a llyriad-y-dŵr arnofiol.

3.1.3 Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd statudol i gyfrannu at gyrraedd targedau ansawdd dŵr, a drwy hynny i amddiffyn yr afonydd sy'n ACA, trwy reoleiddio gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adroddiad lle cyflwynwyd asesiad o faint o ffosffad sydd mewn afonydd ACA wedi'i fesur yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig.

3.1.4 Dangosodd yr adolygiad fod dros 60% o'r cyrff dŵr a aseswyd mewn dalgylchoedd afonydd mewn ACA, yn methu â bodloni'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosffad. Fodd bynnag, ar y pryd dangosodd canfyddiadau'r adroddiadau fod yr afonydd sydd yng Wynedd, yn cyrraedd y targedau ansawdd dŵr.

3.1.5 Yn fwy diweddar mae gwaith pellach wedi ei wneud gan CNC sy'n dangos fod yr Afon Gwyrfai (map yn dangos dalgylch yr afon i weld yn atodiad 3) yn methu cyrraedd y targedau ansawdd dŵr gan fod lefelau ffosfforws yn rhy uchel. Nid yw'n glir beth ydi tarddiad y maetholyn ac mae hyn yn amlwg yn rhwystr pan mae angen mynd ati i geisio datrys y mater a gwella yr ansawdd dŵr. Mae ystod o ffactorau gall fod yn rheswm dros y lefelau sydd i'w weld yn yr afon, gan gynnwys triniaeth carthion cyhoeddus a preifat, amaeth, coedwigaeth, llif tymhorol. Mae CNC yn parhau i fonitro'r afon i geisio cael gwell dealltwriaeth am y rhesymau a/neu ffactorau sydd yn achosi i'r afon fod yn methu ei targedau ansawdd dwr. Bydd angen parhau i weithio yn agos efo CNC i geisio deall tarddiad y maetholyn. Rydym eisoes wedi holi CNC am darddiad y maetholyn gan fod hyn hanfodol ar gyfer ceisio cynllunio tuag ddatrysiad, ond nid yw CNC wedi cadarnhau'r tarddiad hyd yma.

3.1.6 Mae asesiadau CNC yn dangos fod yr afon Eden hefyd yn methu targedau ond nid yw yn destun cyfyngiadau datblygu ar hyn o bryd oherwydd un sampl uchel oedd yn gyfrifol am y methiant.

3.1.7 Mae'n bwysig nodi mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd efo'r cyfrifoldeb dros safon yr afonydd gan gynnwys ansawdd dŵr mewn ACA. Ond nid yw CNC yn sefydlu nac yn gweinyddu'r Bwrdd Rheoli Maetholion, gyda'r cyfrifoldeb yma wedi ei roi i Awdurdodau Lleol, er nad oes ganddynt reolaeth uniongyrchol dros yr Afon. Pan gyhoeddodd CNC ganlyniadau eu hadolygiad yn ôl yn 2021 roedd cyllid yn cael ei gynnig i Awdurdodau i helpu gyda chostau o sefydlu a gweinydd BRM, ond ar hyn o bryd nid oes arian ychwanegol yn cael ei gynnig i weithredu hyn.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros yr argymhelliad

3.2.1 Gan nad oedd unrhyw afon ACA o fewn eu hardaloedd yn methu'r gofynion ffosffadau yn flaenorol, ar y pryd nid oedd Cyngor Gwynedd nac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyried fod cyfiawnhad i sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion ac eglurwyd hynny i CNC. Fodd bynnag, yn sgil yr adolygiad diweddar gan CNC mae'r amgylchiadau wedi newid ac mae angen mynd i'r afael â'r gofyniad hwn nawr a sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer ardal Afon Gwyrfai.

3.2.2 Pwrpas bwrdd rheoli maetholion yw bod yn gyfrifol am adnabod a chyflawni camau gweithredu sy'n arwain at gyrraedd targed ffafriol ffosffad Afon ACA. Mae rheoli ffosffad ar draws dalgylch afon yn gofyn am waith gan gyrff preifat a chyhoeddus a rheoleiddwyr, ac felly mae angen i aelodaeth y BRM fod yn aml-asiantaeth. Bydd hyn yn dilyn fformat tebyg i nifer o BRM sydd eisoes wedi'u sefydlu mewn ardaloedd eraill o Gymru.Ar yr un pryd mae'n bwysig fod y BRM yn addas i bwrpas a chymesur i anghenion yr Afon a'r ardal gan gofio fod dalgylch yr Afon wedi ei gyfyngu i Wynedd. Mae trafodaethau cychwynnol eisoes ar waith gyda swyddogion Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sefydlu BRM ar y cyd ar gyfer y ddau Awdurdod.

3.2.3 Bydd angen i'r BRM baratoi Cynllun Rheoli Maetholion gyda camau gweithredu i alluogi gwelliannau mewn ansawdd dŵr sydd wedi'u cynllunio i adfer a chadw statws cyflwr ffafriol, tra hefyd yn caniatáu i'r datblygiadau barhau o fewn dalgylch yr ACA heb gynyddu'r llwyth ffosfforws (hynny yw datblygiad niwtral o faetholion).

Effaith ar Awdurdodau Cynllunio

3.2.4 Gall rhai datblygiadau newydd yn cynnwys e.e. tai a datblygiadau amaethyddol arwain at fwy o faetholion yn mynd i mewn i afonydd neu dalgylch afonydd sy'n bwydo mewn i afonydd.

*Ceisiadau Cynllunio*

3.2.5 Er y lefel ffosfforws yn ardal Afon Gwyrfai, nid yw'n golygu nad oes modd cyflwyno datblygiadau o'r newydd. Ond, bydd rhaid i'r Awdurdod Cynllunio ystyried effeithiau maetholion datblygiadau arfaethedig ar ansawdd dŵr o fewn dalgylchoedd (a thu allan gyda rhai dalgylchoedd) yr Afon Gwyrfai (gweler Adtodiad 3 – dalgylch ACA) . Yn ôl canllawiau CNC, mae'n bosib i'r Awdurdod Cynllunio awdurdodi datblygiadau newydd os gellir dangos na fyddant yn arwain at ddirywiad pellach mewn ansawdd dŵr ac na fyddant yn tanseilio gallu'r ACA i fodloni ei hamcanion cadwraeth. Mae canllawiau CNC yn nodi:-

3.2.6 Gellir cyflawni hyn os yw'r canlynol yn wir:

- nid yw datblygiadau yn ffynhonnell maetholion neu
- mae datblygiadau yn ffynhonnell maetholion ond nid oes llwybr iddynt fynd i mewn i amgylchedd afon yr ACA neu
- mae mesurau sy'n gysylltiedig â datblygiad penodol yn cael eu rhoi ar waith fel y gellir cyflawni niwtraliaeth o ran maetholion.

3.2.7 Mae'n debygol y bydd rhaid i unrhyw ddatblygiadau o fewn dalgylch yr afon Gwyrfai neu datblygiad sydd angen cysylltu efo safle trin dŵr gwastraff yn Llanfaglan fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i asesu ei effaith ar y ACA.

3.2.8 Mae'n rhaid nodi felly y risgiau sydd eisoes yn cael eu gweld gydag oedi gyda rhai ceisiadau oherwydd asesiadau fydd eu hangen, yn ogystal a risgiau fod ceisiadau'n cael gwrthod gan nad ydynt gallu cyflawni niwtraliaeth o ran y maetholion gall ddeillio allan o'r datblygiad.

*Cynllun Datblygu Lleol*

3.2.9 Mi fydd rhaid sicrhau fod y CDLl newydd yn cael ei sgrinio i benderfynu os yw unrhyw bolisïau neu dynodiadau tai yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar afonydd mewn ACA. Os bydd angen ystyried dynodi safle sydd angen cysylltiad â gwaith trin dŵr gwastraff, sydd â'r potensial i gynyddu'r llwyth maetholion mi fydd rhaid ymgymryd a asesiad pellach i asesu os yw'n bosib cynnig mesurau i osgoi neu lliniaru effeithiau ffosfforws posibl. Gall hyn fod yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddynodi tiroedd ar gyfer datblygiadau sydd yn nalgylch yr Afon Gwyrfai.

3.2.10 Gall unrhyw waith sydd wedi cael ei gynllunio i gan y BRM fod yn ddefnyddiol o ran rhoi mesurau mewn lle i fynd i'r afael a tharddiad y maetholion sydd wedi effeithio ar ansawdd dwr yr Afon. Rhagwelir y gall y mesurau dan sylw fod yn cynnwys gweithio efo Dwr Cymru i annog nhw i fuddsoddi yn eu is-adeiledd, gweithio efo CNC i annog nhw i gael rheolaeth well o'r Afon a gweithgareddau gall effeithio ar ansawdd y dwr, a rhoi chefnogaeth briodol i dir feddianwyr

Goblygiadau Adnoddau

3.2.11 Nid oes unrhyw goblygiadau uniongyrchol yr argymhellion i greu'r bwrdd. Ond gall fod angen comisiynu gwaith technegol/arbenigol i fwydo mewn i baratoi'r Cynllun Rheoli Maetholion. Mi fydd angen i swyddogion y Cyngor i fynychu cyfarfodydd y BRM a hefyd unrhyw gyfarfodydd cysylltiedig. Bydd hefyd angen swyddogion i baratoi'r neu fwydo mewn i baratoi'r Cynllun Rheoli Maetholion.

## 4. Camau Nesaf

4.1 Fel nodir uchod, mae lefelau ffosfforws uwch na'r trothwy derbyniol yn Afon Gwyrfai yn golygu fod angen sefydlu BRM. Mi fydd swyddogion yn mynd ymlaen i sefydlu'r Bwrdd mewn cydweithrediad gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r asiantaeth eraill, yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet. Mae disgwyliad i sefydlu BRM efo partneriaid allweddol gyda'r nod o baratoi a gweithredu ar gynllun rheoli maetholion.

4.2 Bwriedir hefyd codi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau Fforwm Gwyrfai ac yn gyffredeinol ynglŷn â beth gall hyn olygu o safbwynt datblygiadau newydd yn yr ardal.

## 5. Barn y swyddogion statudol

### 5.1 Prif Swyddog Cyllid:

Rwyf yn nodi cynnwys yr adroddiad yma, yn enwedig paragraff 3.2.11 sy'n egluro nad oes oblygiadau ariannol uniongyrchol o weithredu'r penderfyniad a geisir.  Rwyf yn fodlon fod hyn yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa

### 5.2 Swyddog Monitro

Rwyf wedi cael cyfle i gynghori ar  mater yma ac yn fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl Drafft – Bwrdd Rheoli Maetholion

Atodiad 2 - Cyfarwyddyd i Byrddau Rheoli Maetholion

Atodiad 3 – Map – Dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol Sensitif i Ffosffad